

P-05-977 Ailagor gwasanaethau deintyddol cyffredinol llawn yng Nghymru fel sydd wedi digwydd yn Lloegr

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Bartley, ar ôl casglu cyfanswm o 7,583 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Ar 23 Mawrth, caewyd gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer popeth heblaw am gyngor, gwrthfotigau, poenladdwyr ac echdyniadau syml.

Ar 8 Mehefin 2020, caniatwyd i bractisau yn Lloegr ailagor ac roedd lefel y gwasanaeth yn seiliedig ar eu gallu i gydymffurfio â phrotocolau gweithredu diogel.

Gwrthodir y cyfle hwn i gleifion a deintyddion yng Nghymru ac amcangyfrifir y bydd y gwasanaeth "arferol" yn ailddechrau ym mis Ionawr 2021.

Gwrthodir y cyfle i gleifion gael mynediad at driniaeth briodol yng Nghymru. Gwahaniaethu yw hyn ac mae'n rhaid iddo ddod i ben.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Bydd practisau mor ddiogel â phosibl. Hefyd, mae pwysau ariannol anferth arnynt a all olygu y bydd yn rhaid i lawer ohonynt gau, gan waethygu problemau mynediad.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru